Yn y llyfryn hwn mae ffotograffau rhyfeddol o hardd o gennin-Pedr. Cawsant eu tynnu gan Mike Danford a'u comisiynu i gynyddu diddordeb a gwybodaeth am y mathau o gennin-Pedr yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

This booklet features strikingly beautiful photographs of daffodils. Taken by Mike Danford, they were commissioned to raise both interest in, and knowledge of, daffodil varieties at the National Botanic Garden of Wales.

***Narcissus* 'Lemon Beauty'**

Mae Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropiaidd

Growing the Future at the National Botanic Garden of Wales is part of the Welsh Government Rural Communities-Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the Welsh Government and the European Union.

CENNIN-PEDR
DAFFODILS

Fel blodyn cenedlaethol Cymru, mae'n hollol naturiol i'r cennin-Pedr gwych gael eu cynrychioli mor dda yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ers agor yr Ardd yn y flwyddyn 2000, mae wedi arddangos dros 50 o wahanol fathau o'r blodyn llachar, neilltuol hwn.

Ond beth yn union yw cenhinen-Bedr? Y dehongliad clasurol a wisgir gan Gymry balch ar ddydd Gŵyl Dewi yw blodau mawr melyn gyda thrwmped. Ond gallai ymwelwyr â Gardd y Gwanwyn hefyd weld mathau gyda mwy o liw oren, pinc, gwyrdd neu wyn nag o felyn. Gallent sylwi ar lawer gwahanol faint, amrywiaeth cymhleth o ffurfiau blodau, ac o bwyso ymlaen caent rai aroglau melys a chynnil.

Er mwyn tynnu sylw at amrywiaethau mor rhyfeddol, gofynnwyd i Mike Danford, ffotograffydd sydd hefyd yn un o wirfoddolwyr yr Ardd, chwilio am ddetholiad amrywiol o gasgliad presennol yr Ardd o gennin-Pedr yn 2018. Y llyfr hwn, a'i arddangosfa yn Oriel yr Ardd o 2 Chwefror i 7 Ebrill 2019, yw'r canlyniad. Gallwch ofyn am i brintiau o'r holl luniau gael eu cadw wrth gefn ichi i'w prynu yn siop y Stablau.

As Wales' national flower, it makes perfect sense for the magnificent daffodil to be so well represented at the National Botanic Garden of Wales. Since opening in 2000, the Garden has shown over 50 varieties of this showy, distinctive beauty.

But what exactly is a daffodil? The classic depiction on the lapels of proud Welsh men and women on St. David's Day is of a large trumpeted yellow flower. But Springtime visitors to the Garden could also find varieties with more orange, pink, green or white colours than yellow. They may notice the mixture of sizes, the complex array of flower structures and if they were to lean forward and sniff, some sweet and subtle scents.

To draw attention to such fascinating variations, photographer and Garden volunteer, Mike Danford, was asked to search for and record a varied selection of the Garden's living daffodil collection in 2018. This booklet, and his 'Daffodils' exhibition in the Garden's Oriel Yr Ardd Gallery from February 2nd to April 7th 2019, are the result. Prints of all images can be reserved for purchase in the Garden's Stable Block shop.

Tudalen blaen: *Narcissus* obvallaris. Testun gan Bruce Langridge a'r Dr. Kevin McGinn, ffotograffau gan Mike Danford, Aled Llywelyn(tudalen yma), dylunio gan Inglebydavies.com.

Front cover: *Narcissus* obvallaris. *T*ext by Bruce Langridge and Dr. Kevin McGinn, photographs by Mike Danford, Aled Llywelyn (this page), design by Inglebydavies.com.

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
1 Narcissus pseudonarcissus
2 Narcissus obvallaris
3 Narcissus sp.
4 Narcissus poeticus var. recurvus
5 Narcissus 'Avalanche'
6 Narcissus 'Replete'
7 Narcissus 'Parisienne'
8 Narcissus bulbocodium
9 Narcissus 'Toto'
10 Narcissus 'Early Sensation'

Cenhinen-Bedr Wyllt
Coed y Gwanwyn
Mae tua 50 o wahanol rywogaethau o gennin-Pedr i'w cael ar draws Ewrop a Gogledd Affrica sy'n frodorol i ddolydd, coedydd a mannau creigiog. Yr enw botanegol (genus) arnynt i gyd yw *Narcissus*. Y cennin-Pedr gwyllt a mwyaf cyffredin i ni ym Mhrydain yw'r *narcissus pseudonacissus*. Gelwir hi hefyd yn lili'r Pasg, a hon yw tarddiad mathau di-ri o gyltifarau o gennin-Pedr gardd.

Wild Daffodil
Springwoods
Native to meadows, woodlands and rocky areas across Europe and North Africa, there are around 50 different species of daffodil that all share the botanical name (genus) *Narcissus*. *Narcissus pseudonarcissus* is our much-loved wild and most common daffodil in the UK. Also known as the lent lily, it is a parent species of countless varieties of garden daffodil called cultivars.

1 ***Narcissus pseudonarcissus***

Cenhinen-Bedr Penfro
Coed y Gwanwyn
Gall blodau melyn llachar, gosgeiddig y genhinen-Bedr hon sy'n blodeuo mewn pryd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi hawlio mai hi yw blodyn cenedlaethol Cymru. Ond er bod cysylltiad anorfod rhwng hon a Chymru, mae ansicrwydd ymhlith arbenigwyr ynglŷn â'i statws fel rhywogaeth wirioneddol frodorol - mewn gwirionedd gallai fod yn ffurf hynafol ar flodau gardd a oedd wedi dianc i'r gwyllt. Ond beth bynnag yw ei tharddiad, ni fedrem ofyn am flodyn cenedlaethol harddach.

Tenby Daffodil
Springwoods
With graceful bold yellow blooms appearing in time for St. David's Day, this quintessential daffodil can claim the honour of being Wales' national flower. Although inextricably linked to Wales, there is debate among specialists over its status as a true native species – it could actually be an ancient garden form that escaped into the wild. Regardless of its origins, we could not ask for a more beautiful national flower.

2 ***Narcissus obvallaris***

Cenhinen-Bedr Derwydd
Y Rhewdy
Hwyrach fod y rhyfeddod dwbl hwn a'i liw gwyrdd yn edrych braidd yn anniben, ond rydyn ni'n falch o'r genhinen-Bedr Derwydd. Gyda'i chysylltiadau lleol, credir iddi fod wedi tarddu ym mhentref Llandybïe gerllaw, ac mae'n tyfu'n wyllt yn Sir Gaerfyrddin. Mae rhai pobl yn ei galw'n genhinen-Bedr glystyrog Thomas, sef term cyffredinol am gennin-Pedr sydd ag ymyl o liw gwyrdd, a hwyrach fod hynny'n esbonio pam nad oes iddi enw botanegol priodol.

Derwydd Daffodil
Ice House
This double-flowered, green-tinged curiosity may look a little scruffy, but we are proud of the Derwydd daffodil. With local connections, it is thought to have originated in the nearby village of Llandybïe and can be found growing wild in Carmarthenshire. Some know it as Thomas's virescent daffodil, a general term for green-tinged double daffodils, which may explain why it has no proper botanical name.

3 *Narcissus* sp.

Cenhinen-Bedr y Beirdd
Gardd Tyfu'r Dyfodol
Roedd y genhinen-Bedr hon yn flaenllaw mewn gwaith ymchwil geneteg, a chod genetig hon oedd y cyntaf i gael ei gwblhau'n llwyr. Mae'r gwaith ymchwil hwn gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a Phrifysgol Reading yn bwriadu datblygu profion genetig sy'n gallu darganfod mathau ffug sy'n llechu ar silffoedd canolfannau garddio – bylbiau'n cael eu gwerthu gydag enwau anghywir sy'n achosi siom enfawr i arddwyr.

Pheasant's Eye Daffodil
Growing The Future Garden
A frontrunner in genetic research, this highly fragrant daffodil was the first to have its whole genetic code sequenced. This research by the Royal Horticultural Society and Reading University aims to develop genetic testing able to catch imposters lurking on garden centre shelves – bulbs sold under the wrong names that cause gardeners great disappointment.

4 *Narcissus poeticus* var. *recurvus*

***Narcissus* 'Avalanche'**
Yr Ardd Ddeu-fur
Mae cennin-Pedr gardd yn amrywio'n rhyfeddol o ran ffurf, maint a lliw. Hanes maith a chymhleth o fridio dros 150 o flynyddoedd sydd wedi rhoi'r amrywiaeth rhyfeddol hwn, lle mae pobl frwd ac ymroddedig wedi bod yn ceisio cynhyrchu blodau hardd drwy groesi gwahanol fathau o gennin-Pedr. Mae hyd at ddeg blodyn bach ar bob coesyn o'r 'Avalanche', sy'n gyltifar a fagwyd tua 1906 ar Ynysoedd Sili.

***Narcissus* 'Avalanche'**
Double Walled Garden
Garden daffodils come in a vast array of shapes, sizes and colours. A long, complex history of breeding spanning over 150 years has produced this impressive diversity, where dedicated enthusiasts have been on a quest to produce beautiful blooms by hybridising different daffodils. With up to ten tiny flowers per stem, 'Avalanche' is a multi-headed cultivar bred around 1906 on the Isles of Scilly.

5 ***Narcissus* 'Avalanche'**

***Narcissus* 'Replete'**
Gardd Wallace
Yn y flwyddyn 2008 roedd dros 28,000 o gyltifarau o gennin-Pedr ac mae'r nifer y dal i dyfu bob blwyddyn wrth i rai newydd gael eu bridio. Mae blodau dwbl yn ddewis poblogaidd ymhlith garddwyr, gyda'u ffurfiau ychwanegol fel petalau ond heb drwmped canolog clir. Cafodd 'Replete' ei fridio yn Unol Daleithiau America ym 1975 ac mae'n boblogaidd iawn am ei arogl melys a'i ganol pinc golau crychlyd.

***Narcissus* 'Replete'**
Wallace Garden
As of 2008, there were more than 28,000 daffodil cultivars and this number continues to grow year on year as new ones are bred. Packed with extra petal-like structures and lacking a clear central trumpet, double flowers are a popular choice for gardeners. 'Replete' was bred in the USA in 1975 and is much loved for its sweet scent and ruffled coral pink centres.

6 ***Narcissus* 'Replete'**

***Narcissus* 'Parisienne'**
Gardd Wallace
Cafodd 'Parisienne' ei fridio yn yr Iseldiroedd cyn 1961, ac mae'r petalau gwynion llydan yn bywiocau lliw oren dwfn y canol. Os edrychwch yn fanylach, gwelwch fanylion mwy cain y blodyn deniadol hwn: mae blaenau bach main i'r petalau, ac o gwmpas y canol oren mae ffriliau cywrain. Yn y canol mae'r nodweddion gwryw sy'n cario'r paill (y brigerau) a'r nodweddion cenhedlu benywaidd (y stigma) i'w gweld yn amlwg.

***Narcissus* 'Parisienne'**
Wallace Garden
Bred in the Netherlands before 1961, broad white petals bring the vibrant deep orange centre of 'Parisienne' to life. With a closer look, finer details can be observed in this showstopper: the petals have small points at the tips and the orange centre is bordered by intricate frills. At its core, the pollen-bearing male structures (stamens) and female reproductive structure (stigma) are easily visible.

7 ***Narcissus* 'Parisienne'**

Cenhinen-Bedr Gylchog
Y Tŷ Gwydr Mawr
Planhigion o Fôr y Canoldir yw rhywogaethau gwyllt cennin-Pedr, a daw'r genhinen-Bedr gylchog o Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal. Rydym yn tyfu'r cymeriad rhyfeddol hwn a mathau eraill o gennin-Pedr gwyllt yn ardal Môr y Canoldir yn y Tŷ Gwydr Mawr. Hwn yw un o'r mathau lleiaf o gennin-Pedr, yn ddim mwy na 15cm o uchder, ac mae'r dail yn gul iawn tebyg i frwyn.

Hoop Petticoat Daffodil
Great Glasshouse
Wild species of daffodil are Mediterranean plants and the hoop-petticoat daffodil hails from France, Spain and Portugal. We grow this quirky character and other wild daffodil species in the Mediterranean section of the Great Glasshouse. One of the smaller daffodil species, it grows to only 15 cm high, and has very narrow, rush-like leaves.

8 ***Narcissus bulbocodium***

***Narcissus* 'Toto'**
Y Pwll Drych
Ar y genhinen-Bedr fechan hon mae dau neu dri blodyn cain lliw hufen ar bob pen ac mae'n ddewis da ar gyfer gardd gerrig, blwch ffenestr neu botyn. Drwy ddewis amrywiaeth o gennin-Pedr ar gyfer eich gardd sy'n blodeuo ar wahanol adegau, gallwch fwynhau cyfnod hir o gennin-Pedr am hyd at bedwar mis. Mae 'Toto' yn un o'r mathau sy'n blodeuo'n hwyrach, o fis Mawrth i fis Ebrill.

***Narcissus* 'Toto'**
Mirror Pool
This dwarf daffodil has two or three delicate creamy-white flowers per head and is a fine choice for a rockery, window box or pot. By choosing a range of daffodils that flower at different times for your garden, you can enjoy an extended season of daffodil flowering for up to four months. 'Toto' is one of the later bloomers, flowering from March to April.

9 *Narcissus* 'Toto'

***Narcissus* 'Early Sensation'**
Y Rhodfa
Mae cennin-Pedr ymhlith y blodau cynharaf i ymddangos yn y gaeaf, ac fel mae'r enw'n ei awgrymu mae'r cyltifar hwn yn arbennig o brydlon, a bydd yn blodeuo o fis Rhagfyr yma yn yr Ardd Fotaneg. Defnyddir cennin-Pedr yn aml yn arwydd o newid yn yr hinsawdd, ac maent yn blodeuo ynghynt ac ynghynt wrth ymateb i'r tymheredd yn codi a ffiniau'r tymhorau'n mynd yn llai pendant.

***Narcissus* 'Early Sensation'**
Broadwalk
Daffodils are among the first flowers to appear each winter and this cultivar, as its name suggests, is known for being particularly prompt, usually blooming from December here at the Botanic Garden. Often used as indicators of climate change, daffodils are coming into flower progressively earlier in response to rising temperatures and blurring of the seasons.

10 *Narcissus* 'Early Sensation'